**Dyddiad cyhoeddi:** 11 Ionawr 2022

## Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n Polisi Rheoli Data a Gwybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

> *"Hoffwn gael manylion am nifer y teithwyr sy'n defnyddio gorsaf reilffordd Bow Street (i'r gogledd o Aberystwyth). Ar ôl agor, cyhoeddwyd manylion gwerth dau fis o ddefnyddwyr. Hoffwn gael nifer y defnyddwyr presennol a blaenorol bob mis dros y flwyddyn ddiwethaf."*

**Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydyn ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

Dyma niferoedd y teithwyr ar gyfer Gorsaf Bow Street, ers i'r orsaf ailagor ym mis Chwefror 2021. Mae'n bwysig nodi mai ffigurau dangosol yn unig yw'r rhain, gan fod Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd (ORR) yn cyhoeddi amcangyfrifon blynyddol o'r defnydd a wneir o orsafoedd ar eu gwefan bob blwyddyn a'r ffigurau hyn fydd y rhif terfynol y cytunwyd arno. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: Amcangyfrifon o'r defnydd a wneir o orsafoedd | Porth Data ORR)

| Mis (2021) | Amcangyfrif o Nifer y Teithwyr sydd wedi defnyddio gorsaf Bow Street |
|---|---|
| Chwefror (o'r 14eg ymlaen) | 49 |
| Mawrth | 96 |
| Ebrill | 298 |
| Mai | 400 |
| Mehefin | 647 |
| Gorffennaf | 721 |
| Awst | 1175 |
| Medi | 712 |
| Hydref | 856 |
| Tachwedd | 814 |
| Rhagfyr (hyd at 17eg) | 409 |
| **Cyfanswm** | **6178** |

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.
Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".